


PS 1514
.D34
Copy 1



THE

BANKS
OF



SUSQUEHANNA:

POEMS by WM. A. DAVIES.
[THE GOLDEN MINER.]



LIBRARY OF CONGRESS.

Chap. *PS151A* Copyright No.

Shelf D34

UNITED STATES OF AMERICA.



11665.C

THE
Banks of Susquehanna :

OR,

THE LEISURE HOURS

OF

THE GOLDEN MINER,

BEING

A PRODUCTION OF THE POETICAL WORKS OF

WILLIAM A. DAVIES,

(THE GOLDEN MINER.)

EAST NANTICOKE, LUZERNE COUNTY, PA.

NEPHEW OF THE LATE IMMORTAL BARD,

REV. WALTER DAVIES, (GWALTER MECHEIN.)

INCUMBENT MINISTER OF MANAUV'N, NORTH WALES.

TRANSLATED INTO THE WELSH LANGUAGE BY

DAVID I. DAVIES, (DEWI IDLOES.)

EAST NANTICOKE.

Printed by BANNAN & RAMSEY, Pottsville, Pa.

1872.

Glenydd y Susquehanna :

NEU,

ORIAU HAMDDENOL

v

MWNWR EURAID;

SEF

CASGLIAD O WEITHIAU BARDDONOL

WILLIAM A. DAVIES,

(Y MWNWR EURAID.)

NANTICOKE DDWYREINIOL, SWYDD LUZERNE, PA.


NAI I'R DIWEDDAR ANFARWOL FARDD

Y PARCH. WALTER DAVIES, (GWALLTER MECHAIN,) MANAFON,

WEDI EI GYFIEITHU O'R SAESNAEG
GAN DAVID I. DAVIES, [DEWI IDLOES.]

NANTICOKE DDWYREINIOL
Argraffwyd gan BANNAN a RAMSFY, Pottsville, Pa.

1872.



PS1514
J34



This Volume

is Respectfully Dedicated

TO MY THREE FAITHFUL AND AFFECTIONATE FRIENDS,

HARRY HAKES,

Of East Nanticoke ;

GEORGE P. RICHARDS

Of Plymouth ;

THEODORE HAMMER,

Of Mahanoy City ;

By their humble servant,

THE AUTHOR.





Y Gyfrol hon

A Gyswynir yn Barchus

I'M TRI CHYFAILL FFYDDLON A CHARIADLAWN,

HARRY HAKES,

O Nanticoke Ddwyreiniol ;

GEORGE P. RICHARDS,

O Plymouth ;

A

THEODORE HAMMER,

O Mahanoy City ;

Gan eu Gostyngedig Was,

YR AWDWR.





INTRODUCTION.

The author of this small volume was born near Tydvil's Well, Merthyr Tydvil, Glamorganshire, South Wales, on the 25th of July, A. D. 1843. His family descended from Montgomeryshire, North Wales. During the early part of his life, his privileges of education were very narrowly limited, as his father many years before his death had lost his sight, and as the family consisted of seven in number, the author being the youngest, it may be easily imagined that the means of education could not be afforded, especially when we consider the situation of the working classes in Wales.

As his father in early life had drank freely from the fountain of knowledge, he was very cautious to teach his children the fundamental principles of learning, and make them conversant with scripture. Oftimes I have heard the bard say he was under the necessity of spelling and rehearsing three verses from scripture between his meals, otherwise he was under obligations to fast until the task was fulfilled; nevertheless, he had a kind father who was a pious Christian. This we can easily comprehend from the tenor of the poem entitled, "*O! that*



ERRATA.

Page 16—For “*geology*,” read “*theology*.”

Page 44—For “That bled there to save,” read “That bled their land to save.” And for “Historians ere to bring,” read “Historians e’er to bring.”

Page 64—For “A *humble* soul,” read “A *humbler* soul.”

Page 136—For “gore hath *closed*,” read “gore hath *colored*”

Page 138—For “Thou *eternally* shalt chant,” read “Thou *eternal* shalt chant.”

Page 144—For “the forest mammoth the squirrel,” read “the forest mammoth *to* the squirrel”

Page 40—For “The storms are over,” read “The storms of *life* are over.”

Page 56—For “*But* to your,” read “*Back* to your, &c.”

Page 146—For “Thy celestial *love*,” read “Thy celestial *robe*.”

G WALLAU.

Tud. 105, llin. 3, yn lle *arnat*, darllener *arnaf*.

Tud. 113, llin. 2, yn lle *circh*, darllener *erch*.



t
t
s

t
tl
co
he
ve
ob
,ha
con



RHAGARWEINIAD.

GANWYD awdwr y gyfrol fechan hon ger Ffynon Tydfil, yn Merthyr Tydfil, swydd Forganwg, D. C., Gorpenaf 25ain, 1843, eithr yn ddisgynedig o swydd Drefaldwyn, G. C. Yn moreu ei oes ni chafodd nemawr o fanteision dysg, o herwydd fod ei dad, flynyddau cyn ei farwolaeth, wedi cael ei ymddifadu o'i olygon. Gan fod ganddo i ofalu am saith o blant, yr ieuangaf o ba rai oedd yr awdwr, amlwg yw nas gallesid dysgwyl mwy o fanteision addysg iddynt nag a fwynheir yn gyffredin yn Nghymru. Gan fod ei dad yn moreu ei oes wedi ymhyfrydu mewn gwybodaeth, cymerodd gryn drafferth i egwyddori ei blant yn elfenau gwahanol ganghenau gwybodaeth, yn benaf oll bu yn dra gofalus i'w haddysgu yn egwyddorion y gyfrol ddwyfol. Clywais yr awdwr yn dywedyd ei fod dan yr angenrheidrwydd o sillebu ac adrodd tair o adnodau o'r ysgrhythyr lan rhwng ei brydiau bwyd, yn amgen byddai raid iddo ymprydio nes eu dysgu yn gywir. Er hyny yr oedd yn dad tyner ac yn Gristion cywir. Deallir hyny wrth ddarllen

with thee my faithful father," in which he describes his feelings in very pathetic language.

From the history which the bard has given me concerning his beloved father, it is briefly as follows:

He served many years in the British army; four years as a private kettle drummer in the 23rd regiment of the Royal Welsh Fusileers, then he was promoted to drum major, which office he fulfilled so as to give general satisfaction for the space of ten years.

The first cause of his blindness occurred after the siege of Gibraltar on the Mediterranean Sea, when he was visited with a disease, which affected his eyes. Owing to said disease, himself and several others were discharged. After his release from the army, he proceeded to Holywell, in Flintshire, North Wales, where he married a daughter of the late Rev. David Evans, minister of the Baptist Church—she proved a diligent and virtuous wife during life, and by her he had seven sons and three daughters. From Holywell he migrated to Merthyr Tydvil, where he entirely lost his sight, and where he reared his family by carrying on the nailing business; so he kept twelve workmen for the space of 26 years. He was beloved by all, both poor and rich. May he rest in peace after an age of pilgrimage.

The departure of the bard from his parents leaves a deep impression upon his mind up to the present day.

The kind advice given, the love and affection exhibited, and the briny tears that flowed perpetually nourish the fountain of regret.

In 1865 our hero emigrated to America, but previously he had married one Maria Jenkins, at Aberdare, South Wales, so

y gan a elwir, “*O! gyda thi fy nhad ffyddlonaf,*” yn mha un y desgrifia ei deimladau yn dra effeithiol a medrus.

Oddiwrth yr hanes a roddes y bardd i ni o barthed ei dad, ymddengys iddo dreulio llawer o flynyddau yn myddin Prydain Fawr. Bu bedair blynedd yn dabyrddwr cyffredin, yna dyrchafwyd ef yn rhingyll y tabyrddion yn y 23ain gatrawd o’r “*Milwyr Breiniol Cymreig,*” yr hon swydd a wasan-aethodd yn ffyddlon am yspaid deng mlynedd. Yr achos gwreiddiol iddo golli ei olwg oedd cael anwyd pan yn amddiffyn Caerfa Gibraltar, ar For y Canoldir. O herwydd iddo ef ac eraill glafychu cawsant eu rhyddid. Ar ol ei ryddhad aeth i Dreffynon, swydd Callestr, G. C., lle y priododd a merch y diweddar Barch. David Evans, gweinidog y Bedyddwyr, yr hon a fu yn amgeledd gymhwys iddo drwy ystod ei oes. Ganwyd iddynt saith o fechgyn a thair o ferched. O Dreffynon symudodd tad ein hawdwr i Ferthyr Tydfil, yn mha le y llwyr gollodd ei olwg. Cadwodd ddeuddeg o wneuthurwyr hoelion yn ei wasanaeth am 26ain o flynyddoedd, a pherchid ef yn fawr gan wreg a bonedd. Heddwch i’w lwch, ar ol taith o bererindod.

Y mae ymadawriad y bardd a’i rieni wedi gadael argraff ddwfn ar ei feddwl hyd heddyw. Y cynghorion dwysa roddwyd, y serch a’r cariad a ddangoswyd, a’r dagrau heilltion a dywalltwyd, a ddylifant mor nerthol, nes cadw ffynhonell hiraeth yn ddiysbydd.

Yn y flwyddyn 1865, ymfudodd ein harwr i’r America. Cyn hyny priododd ag un Maria Jenkins, yn Aberdar, D. C.,

Mr. Jenkins and the whole family, including our bard, embarked hither. Be it understood that Mrs. Davies' parents are strong promoters of learning, so in their persons the author found great consolation in his career to obtain knowledge, because they had the kindness to assist him to procure a variety of books, and also to three months of academical instruction at Lewisburg, Pa., which enabled him to reach his present position. As a miner, he has worked as much as the generality of his fellow workmen, beside preaching the gospel very frequently.

Like many more, it happens that he transgressed the laws of his employers to such a degree as to bring upon him their judicious revenge. These children of monopoly have deprived him of being able to obtain work *when* and *wherever* he makes an application, and all this is done because he has defended what *his* and *other* consciences believe to be justice. Amongst the working classes it is seldom we meet his equal; he possesses great energy of thought, fluency of speech, and expanded ideas. And as he commands a steady resolution with the truth for his shield, he is deemed almost unconquerable. He has been offered high offices, such as would benefit himself and family, providing he used his influence to invoke his fellow workmen to yield to their terms or not to interfere further in their cause. Such proposals he refused with scorn and contempt. So he became a mark for their venomous arrows. The result was, the refusal of work, and the turning himself and family out from their humble dwelling, to seek shelter under the canopy of heaven, with mother earth for their resting place.

Dear reader, I ask you, when will the day dawn when the

rhieni yr hon, ynghyd a'i brodyr a'i chwiorydd, a ymfusasant hefyd. Dealler fod rhiaint Mrs. Davies yn dra hoff o ddysgeidiaeth, a buont yn gynorthwy nid bychan i'n hawdwr yn ei yrfa wybodaethol, o herwydd iddynt ei ategu a gwahanol fathau o lyfrau, yr hyn, yn nghyd a'i gynorthwyo i gael tri mis o ysgol yn Lewisburg, a'i galluogodd i gyrhaedd ei safon bresennol.

Fel mwnwr, y mac wedi gweithio ar gyfartaledd a'r rhelyw o'i gydweithwyr, gan bregethu yr efengyl yn dra mynych; eithr fel amrai eraill, dygwyddodd iddo dynu gwg a digofaint y goruchwylwyr, nes yr amddifadir ef o waith pa le bynag y troa ei wyneb, a hyn oll o herwydd ei fod yn amddiffyn yr hyn a ystyriai ef ac eraill yn gyfiawnder. Yn mblith y dosbarth gweithiol anfynech y ceir ei efelydd. Medda amgyffredion dyrnddwys, doniau llithrig, ac hyawdledd goruchel; a thra yn mabwysiadu penderfyniad diysgog a gwirionedd yn darian iddo, anhawdd yw cael neb i'w wrthsefyll. Er cynyg iddo swyddi cysurus ac enillfawr am geisio gwyrddroi ei gydweithwyr, nen adael eu hachos yn llonydd, gwrthododd y cwbl gyda dirmyg, nes myned yn nod i saethau gwenwynig. Y canlyniad fu ei atal i weithio, a'i anfon ef a'i deulu allan o'u hanedd, i gymeryd ffurfafen y nefoedd yn do, a'r ddaear oer yn orweddfan.

Atolwg, ddarllenydd, pa bryd y gwawria yr amser pan y daw y mwyrif o'r gweithwyr yn ddidwyll i hawlio eu hiawnderau? Llauer o floeddio y sydd am ryddid yn America, yn ogystal a pharthau eraill o'r byd, pan y sefydlir undeb i du-ebu yn erbyn gormes a thrais. Rhy fynych y gosodir gor-

majority of workmen will join, in the absence of falsehood, to claim their rights? There existeth a continual cry for freedom throughout America, as well as other parts of the globe, but when there is an union established that tends to demolish the bonds of slavery, often there will be too much confidence placed in traitors and demagogues who, like Esau of old, will sell their birthright for a very small trifle.

Since the majority of the population of all civilized countries is composed of the working classes, I cannot perceive that there should be any obstacle in the way of workmen to procure their rights under such a free government as America. Our small space will not permit a criticism on capital and labor, the duty of workmen, etc , and, in fact, enough has been said through other mediums. All that is required is a co-operation in union ; keep falsehood, treachery, and avarice aloof. This vast country is inhabited by representatives of almost all nations of the world, and they themselves, or their ancestors have been monopolised by tyrants of other governments ; they have fled here for refuge and in search of freedom, but alas ! they have turned tyrants themselves.

Should a *man* rise amongst them that deserves that blessed *name*, hatred will be nursed toward him, lies spread concerning him, and all the power of malice and vengeance will be brought forward to overwhelm him. Instead of gratifying his integrity, they will stain his character with the basest language they are able to pronounce. Instead of tendering a charitable hand in case of necessity, they will deprive him of all accommodation, and *despise* sooner than *greet* him with sympathy and love. But still the author of this work manifests brother-

mod o ymddiried mewn rhyw gorachod llesg a llwfr, pa rai mal Esau gynt, a werthant eu genedigaeth-fraint am ychydig. Gan mai gweithwyr a gytansoddant y mwyrif o drigolion pob gwlad, o dan lywodraeth mor rhydd ag America methwyf a chanfod un rhwystr ar eu ffordd i fwynhau eu hiawnderau. Pallai ein gofod yn yr erthygl fechan hon i fanylu ar gyfalaf a llafur, dyledswydd y gweithwyr, &c., ac, o ran hyny, y mae digon wedi ei ddweyd drwy gyfryngau draill. Yr unig bethau sydd yn eisiau ydynt undeb a chydweithrediad, a chadw hoced, brad a thwyll allan o'n plith. Poblogir y wlad eang hon gan ddyinion agos o bob llwyth, iaith, pobl a chenedl, a buont hwy neu eu tadau yn ddarostyngedig i iau gormesol llywodraethau creulon eraill, wedi ffoi yma i geisio rhydid, wele y maent yn troi yn ormeswyr eu hunain ! Os cyfyd *dyn* yn eu plith fyddo yn deilwng o'r cymeriad hwnw, meithrinir adgasrwydd tuag ato, taenir celwyddau am dano, a defnyddir brad a thwyll i'w ddisodli. Yn lle gwobrwo ei deilyngdod llychwynir ei gymeriad yn y modd hagraf ; yn lle roddi llaw o gymhorth yn ngwyneb angenoetyd ac adfyd, gadawant ef yn amddifad o bob cynorthwy, a bydd yn hytrach yn destyn gwawd nac yn wrthrych o dosturi. Ar y cyfan, hawlia awdwr y gyfrol hon gyfeillgarwch mynwesol yn mhersonau lluaws o'i gydweithwyr, yn gystal a boneddigion rhyddfrydig eraill ; ac yn y cyfwng presenol, ni fedd yn amgen na chyfeirio at y cyhoedd, gan hyderu y bydd iddynt hyrwyddo cylchrediad y llyfryn bychan hwn, er ei alluogi i gyrhaedd uwch safon mewn dysg a dawn.

Canfyddir yn rhediad y gwaith hwn ei fod wedi ei gyfansoddi yn y Saesnaeg ; a phan ystyrir mai drwy gyfrwng yr

ly love in the bosoms of the majority of his fellow-workmen, as well as other benevolent gentlemen.

Under present circumstances he has no alternative but to apply to the public, having confidence they will speed the circulation of this small volume, so as to supply him with means to reach a higher figure in literature.

In perusing this work you will perceive that the original was composed in the English language ; and when considered that it was through the medium of said language the author has risen to his present position, he humbly requests the sympathy of the critical and learned for thus appearing before the public.

Inasmuch as our bard derives his origin from Welsh ancestry, it is prudent to mention that he is a nephew to the late Rev. Walter Davies, incumbent minister of Manaven, North Wales. The celebrated bard of Manaven was well known by the bardic name of ‘Gwallter Mechain.’ His fame as a bard and historian will flourish in the annals of history while the sun governs the day and the moon illuminates the night.

The writer hopes that the author will live, and have the advantage to reach the figure of his immortal uncle in the sphere of literature and theology, until he becomes a glory to his nation in a distant land. I feel much delighted that he possesses the faculties and resolution to breathe the atmosphere of great knowledge in future. Accordingly, should this small volume meet with a kind reception, as the first fruits of his genius, it will be the cause of animating greater exertions within him to reach the objects of his steadfast views, for he intends returning to Lewisburg College until graduated in the necessary requirements. As this is the only honest method left him to

aeg hono y cyrhaeddodd yr awdwr y gris y mae arno, hyderir y maddeuir iddo am ei anturiaeth gyhoeddus.

Yn gymmaint a'i fod yn Gymro, teilwng yw coffa ei fod yn nai i'r diweddar Barch. Walter Davies (Gwallter Mechain), periglor Manafon, G. C., enw yr hwn, fel llenor a bardd, a saif yn uchel tra haul yn llywodraethu y dydd, a lloer yn llywodraethu y nos.

Hyder yr ysgrifenydd yw y bydd iddo gyrhaedd nod ei ewythr mewn cylchoedd llenyddol a duwinyddol, nes y byddo yn anrhydedd i'w genedl mewn gwlad estronol.

Dywenydd genyf ganfod ynddo ddigon o alluoedd ac ymroddiad i gyflawni gorchestion yn y dyfodol; gan hyny, os cyfarfyddant y cynhyrchion hyn, sef blaenffrwyth ei awenydd, a derbyniad croesawus, rhydd egni ychwanegol ynddo i gyrhaedd cyfeiriad ei amcanion; oblegyd bwriada fyned yn ol i athrofa Lewisburg nes cyrhaedd y graddoliaeth angenrheidiol.

Gan mai dyma yw yr unig foddion gonest a fedda i weithredu er cynnal ei hunan a'i deulu, taer ymbilir ar y cyhoedd i dderbyn ffrwyth ei lafur mal gwron clodadwy a chadfridlog ymresymiad.

Drwy fanol bwysu ar deilyngdod, credir yn ostyngedig y bydd y llyfr yn werth yr hyn a ofynir am dano. Gresyn fyddai i ni adael doniau mor hedegog, aę athrylith mor drylwyr heb roddi manteision i'w gwrteithio. Cludwyd lluoedd i briddellau oer y dyffryn allasant fod yn ser dysgleirwch yn ffurfafen llenyddiaeth pe cefnogid hwynt yn ol eu teilyngdod :

proceed with towards the maintenance of himself and family, it is humbly requested that the public will patronize him as a defeated but confidential hero and champion of reason.

In valuing the merits of this small production it is sincerely believed that it is well worth the fixed price. I should deem it unfair to leave such a gem of knowledge as the author is void of support to cultivate his true genius. Many have been laid in the gloomy regions of the grave who may have figured as bright stars in the firmament of literature, providing they had the support they deserved; whilst others that received the philanthropy of mankind, deserted the paths of duty, and deceiving their friends, sank their talents in the sea of oblivion. If a man is proved willing and steadfast in *some* things, it is easier to place confidence in him pertaining to *other* matters; therefore concerning the author, since his solidity has been proved, even in the face of tempting offerings, we have reason to believe that he will serve the public in the same manner, so that his name will be recorded on the pages of virtue as long as

“Moon and stars beguile the night,
And sun sends forth its beams of light”

Inasmuch as neither the author nor translator claim perfection, it is hoped that this issue be received courteously, without the absurdity of criticising its failures, but receive what is consistent with reason and virtue, with kindness.

In examining this small production the true critic will observe that the author bears more leniently on geology and natural philosophy, than to any other branch of knowledge: because when he endeavors to compose upon subjects differing

ac eraill a gefnogwyd a wyrsant oddiar lwybrau dyledswydd, gan siomi dysgwyliaidau eu cyfeillion drwy suddo eu talentau yn mor anghof. Pan y profir dyn yn ffyddlon a diysgog mewn rhai pethau, gellir ymddibyhu arno yn rhwyddach mewn pethau eraill; efelly o barthed i'r awdwr, gan ei fod wedi cael ei brofi mor ddiysgog yn ngwyneb cymhellion hudoliaethus, mae sail i gredu y gwasanaetha y cyhoedd yn ddi-dwyll, ac y bydd ei enw yn dderchafedig—

“Tra bo lleuad weladwy,
Seirian haul na ser yn hwy.”

Gan nad yw yr awdwr na'r cyfieithydd yn honi perffeithrwydd, bydded i'r cyhoedeb dderbyn hyn o waith yn garedig, heb fanylu ar ei ffaeleddau, ond derbyn yr hyn a ystyrir yn rinweddol gyda pharch.

Drwy ymchwil i'r gwaith hwn, canfyddir fod yr awdwr yn tueddu at ddwyfyddiaeth ac athroniaeth naturiol, yn hytrach na dim arall; o herwydd pan yn ymgynyng cyfansoddi ar destynau gwahanol mae megys yn ymneillduo o'i elfen, ac ni fydd ei awen yn chwaethus a meistrolgar hyd nes y dychwel yn ol i'w ffyrdd cynhenid, yr hyn a brawf nad yw y gwaith wedi ei fwriadu i gynnal mympwyon masweddol, ond yn hytrach i dywys y meddwl at foes a rhinwedd, fel na fydd achos iddo gywilyddio ei arddel yn y dyfodol.

Os cyfarfyddir ag ambell gyfansoddiad a thuedd ddifriol ynddo, sylwer mai y gwrthrych a ddarlunir, ac nid personau: a phe gwybyddit, ddarllynydd, pa faint o gamwri mae yr awdwr wedi ddyoddef gan fradwyr a phleidwyr gormes a

from those principles, he seems as divorced from his natural element, so his genius will not issue a masterly strain, until he has returned to his original equanimity; however, this work is not intended to amuse the vulgar classes, but quite the reverse; it is destined to guide the thoughtful along the paths of virtue and morality; therefore, the author should not be ashamed to acknowledge it in future. Should the reader meet with a few poems that appertain to ridicule or disdain, be it considered that it is the *subject*, is treated upon, therefore, *personality* is out of the question. But, kind readers, if you were aware of the one tenth of the contempt, misery and wrongs, which the bard has endured, through unwise policy of tyrannical powers, probably you would be astonished that his muse was not directed more personally. Nevertheless, we presume that he deserves recommendations for his prudent forbearance and manly manners, for it is seldom any good comes from that cursed passion called revenge.

Such was his zeal to benefit his fallen workmen that he used all his energies to defend them. Although he was thrown from his dwelling, as before mentioned, when neither of them dared give him refuge, fearing that themselves and families would share the same fate, under the vengeance of the cruel company; yet, Mr. Davies is far from boasting in his manly doings. Providing all miners in America acted similar to him they would soon release themselves from the slough of bondage and obtain their rights.

Now, to the Golden Miner give,
With all your hearts, a chance to live;
Do act like men, and boldly say,
He is the champion of the day.

thrais, y mae i'w ryfeddu na fuasai wedi defnyddio llwybr mwy personol.

Yn hyn oll, mae yn ddiau ei fod i'w ganmol am ei amynedd, ei ledneisrwydd, a'i foneddigeddrwydd; canys anfynych y deillia yr un daioni oddiwrth y nwyd felldigedig hono a elwir ymddial.

Yr oedd ei awydd gymmaint am lesoli ei gydweithwyr, nes y defnyddiodd ei holl allu, gorff ac enaid, i'r perwyl hwnw. Er ei ymlid o'i annedd, fel y crybwyllwyd, pan nas beiddiai neb o'i gyfeillion drugarhau wrtho, am eu bod yn ofni derbyn yr un dynged oddiwrth eu meistri; eto, pell ydyw Mr. Davies o ymfrostio yn ei weithredoedd; er hyny, tegwch tuag ato ydyw bras-grybwylliad fel hyn, fel y gellir ei farnu yn ol ei deilyngdod.

Ped ymddygent holl fwnwyr America fel efe buan y meddiannent eu hiawnderau, gan ymryddhau o gorsydd diffaith caethiwed.

Yma'n awr i'r mwnwr euraid—rhoddwch
Arwyddion bro telaid;
Deuwch a bloeddiwch o blaid
Gwir rin ei gywir enaid.

Breiniau dyn yn brin y daeth,—ond Davies
Dyfodd i'w gefnogaeth;
Er ei hól i reolaeth
A allawdd o'i nawdd a wnaeth.

Against him if a siege is laid,
 Ye miners, come and give him aid.
 So that he may defeat his foes,
 In where he is or where he goes.

The rights of man he will defend
 In truth and justice to the end :
 These are his shields,—and who will stand
 Before the force of his command ?

Upon the Susquehanna banks
 May we all join our hero's ranks,
 His moral works we will renown,
 That we may wear a virtuous crown.

He worked for us with all his might
 To reach the sphere of human right :
 At what he done, he do not spurn
 To do him kindness in return.

Receive the book with joy and pride
 That such a man with you reside :
 Show you have hearts to sympathize,
 Then one and all his glory rise.

DEWI IDLOES.



Gresyn fod cynddrwg rhusedd—i'w erbyn,
Gan oer-benau dialedd ;
Ond daw y diwyd o'r diwedd
I gywir fan os gwir a fedd.

Gwirionedd egyr anian—y gonest
I gynnal yr egwan ?
Gair ei allu :—gyr allan
Ei yni myg yn y man.

Ar lan y Susquehanna—y llafur
O'r llyfryn darllena,
A gwawr ei deg eiriau da
O'i rinwedd a'th gorona.

Ar uniawn daith cyfiawnder—cheded,
Ar edyn cyflymder ;
A doed pob gweithiwr yn der
I fwyniant dan ei faner. DEWI IDLOES.





POEMS.

A NATIONAL SONG FOR THE FATHER OF HIS COUNTRY.

Thou hero of heroes, the Sun of Columbia,
Whose rays of bright glory brought freedom to all ;
The stars of the earth with their honor and splendor,
Before thee, my Washington, forever must fall.
Thy name is the first on the pages of freedom,
Thy deeds and thy prayers my soul doth refine,
And millions on millions of wandering exiles,
With heartfelt devotion now bend at thy shrine.

Thou founder of liberty and herald of freedom,
Thy name swells with rapture within every breast,
For opening a refuge to down-trodden nations,
Where, secure from tyrants, they ever may rest.



CANEUON.

CAN GENEDLAETHOL I DAD EI WLAD.

Ti wron gwroniaid, a huan Columbia,
A ledodd ei edyn dros ryddid drwy'r byd ;
Sefyllfa y cyfryw, a'r rhwysgfawr wrhydri
O'th flaen di, ein Washington, gwypant i gyd ;
Dalenau gwir ryddid ddyrchafant dy fawredd,
Fy enaid a feithrin dy glodydd bob awr,
A miliwn ar filiwn o ddynion crwydredig
Oblygant eu gliniau i enw mor fawr.

Gwreiddiolwr ein rhyddid, a phenaeth cyfiawnder,
Dy enw ddyrchefir ar edyn gwir ddawn,
Am agor iawn nodded i amrai genedloedd
Yn erbyn gormeswyr, yn gorphwys a gawn ;

Thy fame is exalted from ocean to ocean,
Thy monument built in the hearts of the brave,
And legions of freedmen forever will bless thee,
With their tears of devotion to drop o'er thy grave.

O, there let him rest on verdant Mount Vernon,
Where oft in his boyhood he rambled around,
And breathed in the fragrance of every sweet flower,
The essence of freedom so grand and profound.
My soul is delighted to muse on thy valor,
To sing with the myriads thy honor and fame,
For no people on earth save the sons of Columbia,
Can rejoice so delightful in a Washington's name.

O, sweet be thy slumber, Columbia's first hero,
No poet on earth thy deeds can proclaim,
But still I delight in musing upon thee,
As one of thy freedmen that here will remain.
So peace to thy slumber, my Washington, forever,
Transported with joy my musing is o'er,
For in sacred esteem I ever will hold thee,
And bless with the millions thy name evermore.



Dy glodedd ymledodd o foroedd hyd foroedd,
Dirwynwyd dy fawredd mewn cadwyn o hedd,
A lluoedd gwir ryddid hyd angau a'th folant,
A dagrau tryloywon eneiniant dy fedd.

Ah ! yma gorweddi ar fynydd hen Vernon,
Lle yn dy ieuentyd a geraist mor gu ;
Aroglit ei blodau llysiuol bob enyd
Gan awel gwawl rhyddid yn ngwyddfod y llu ;
Fy awen hyfryda ar gylch dy ucheledd,
I garu dy glodydd, dy fawredd a'th fri ;
Ni fedd y ddaecaren,—chwaith meibion Columbia,
Na dyn i'w ddyrchafu yn hafal i ti.

O ! cysga yn dawel, prif wron Columbia,
Ni cheir bardd daecarol all ddatgan dy fawl ;
Ond eto hyfrydaf roi ffrwyth fy awenydd
Mal teyrnged am ryddid—tydi bia'r hawl ;
Boed hedd i'th orweddfan, ein Washington siriol,
Yn alltud llawenydd terfynaf fy nghan,
Yn santaidd drwy 'mywyd cysegraf dy enw,
A bendith miliwnau a gei heb wahan.



THE CLOSING OF THE TERM.

The term is now ended and what can we say,
Can each give account of some good every day ;
Great care and kind teaching has to us been given,
To prepare our minds for earth and for heaven.

Every morning as regular as dawn would appear.
The sound of the bell would ring in my ear ;
And in its sweet music it seemed to say,
Prepare thyself, student, for the course of the day.

O, may we all a lesson then learn,
From the meaning we get in the close of the term ;
That life it will close with its trouble and care,
And all to be happy must for it prepare.

O, sweet precious moments of life unto all,
Prepare thyself, student, for shortly the call
Will sound in thy ear like the fall of a tree,
To bring thee to a term that ever will be.

I hope that we all may be able to say,
I have discharged my duty from day unto day ;
So to welcome with joy the tocsin of death,
And yield unto Jesus divinely the breath.

DIWEDD Y FLWYDDYN.

Daeth diwedd y tymor, pa beth allwn ddweyd,
A allwn roi cyfrif am dda wedi'i wneud ?
Pob gofal a phryder a rowd gan aŋhrawon
I ddarpar meddyliau 'wynebu'r nefolion.

Bob boreu mor gyson a thoriad y wawr
Cawn adsain y gloch mor dirion i'n dawr ;
Ac yn ei sain felus sibrydai yn rhydd,
Prysurai i fyfyr gweithredion y dydd.

O ! boed ini oll fyfyrion yn ddwys
Yn nherfyn y tymor ar bethau o bwys ,
Terfyna taith bywyd cyn hir yr un wedd,
Ond ceisiwn dangnefedd y tu draw i'r bedd.

Pob eiliad o fywyd sydd werthfawr i ni,
Darpara fyfyrion, waeth buan tydi
A elwir o fywyd, mal ewympir y pren,
A therfyn dy einioes ddirwynir i ben.

Hyderaf y gallwn ddywedyd yn rhydd,
Hyd lwybrau dyledswydd rhodiasom bob dydd ;
Croesawwn mewn gwynfyd hoff rediad y gwir,
Gan roddi i'r Iesu ein hanadl gwir.

Farewell to you all till I meet you again,
 If not on the earth, on the bright heavenly plain,
 Where angels are singing the rapturous song :
 All glory and honor to Christ doth belong.

God grant that it may our portion then be,
 To mingle our voices in heavenly glee,
 To sing with the^e ransomed and nevermore part,
 All glory to Jesus, for worthy Thou art.

Lewisburg, December 24, A. D. 1868.

LINES

Written to commemorate the rustic harp of the Buckville Blacksmith, JOHN PARKER.

Tune, tune thy rustic harp,
 That echoed with the morning lark,
 So sweet in days of yore ;
 Swell, swell that music sweet,
 My heart rejoicingly would greet
 Its melody once more.
 For there's music in thy lyre,
 And joys that doth the soul inspire,
 Spreading happiness around ;
 Where a heart of sorrow's found,
 A balm to every troubled wound
 Within the human breast.

Yn iach i chwi oll nes y cawn eto, gwrdd,
Os nad ar y ddaear, o gylch Salem fwrdd,
Lle'r eilia angylion ganiadau didaw,
Haleliwia i'r Oen fu ar Galfaria draw.

Boed felly rhyglydded ewyllys yr Ior,
Modd y cydymunwn a'r nefolaidd gor
I ganu'n dragwyddol heb ofid na chlwy'
Wir foliant i'r Iesu, heb ymadael mwy.

LLINELLAU

A gyfansod lwyd er cof am y Delyn Berdonol, cyflwynedig i MR. JOHN
PARKER.

HA! delyn fad, brenines can,
Adseiniodd efo'r hedydd glan,
I nodi'r dyddiau gynt!
Peroriaeth eto sydd
I'm lloni yn fy nydd;
A llawenydd megys cynt,
Y sydd i'w gael o hyd,
Tra byddo telyn yn y byd
I'w chael o'm hamgylch i,
Lle mae calon ffraethlon ffri
Yn enaint i anfreiniol fri,
O fewn i ddynol gnawd.

'Tis not to please the gay
That you 'upon your harp do play,
 So well from morn till night.
No, no, but like a man,
Do, do in life all that you can,
 For things to go aright.
'Tis to earn the bread of life
For your children and your wife,
Constituting joy and love,
As designed by Him above,
While you, as happy as a dove,
 Play on your rustic harp.

LINES

Respectfully dedicated to the aged and worthy Pilgrim, REV. JOHN BRECHT,
of Maple Dale.

Old age has come at last, John,
 With all its doubts and fears,
But faithful have you been, John,
 Upon this vale of tears.
Excelsior hath your motto been,
 You have been kind and true,
And done to others as you would
 That they should do to you.

Nid er mwyn dyrchafu eich bri
Byth y chwery eich telyn chwi
 Mor gerddgar ddydd a nos ;
Nage, ond megys dyn
Yn gwncuthur pethau cun,
 Fel y byddo'r oll yn glos ;
Ond i gynnal bywyd i
Eich plant gorwyeh, a'ch priod chwi,
I brofi serch a chariad mad
Ordeiniad doeth ein nefol Dad,
Cyhyd a'ch bod mewn tyner rad
 Yn chwarcu'r delyn fwyn.

LLINELLAU

Cyflwynedig i'r cywir Gristion y Parch. JOHN BEECH, Maple Dale.

O'r diwedd daeth henaint i'n cwrdd, Sion,
 Orfrithwyd gan ofnau cyn hyn ;
Ond ffyddlon y buoch i mi, Sion,
 Yn nyffryn y deigr yn llyn ;
Rhagoriaeth oedd eich prif arwyddair,
 A buoch yn onest i mi,
A gwnaethoch i eraill fel gweddai
 I eraill gyflawni i chwi.

The Banks of Susquehanna.

Now sixty years have gone, John,
Since you commenced to be
An advocate of Him, John;
Who died upon the tree.
Your calling still you do fulfill,
Though life is nearly o'er,
But soon you'll be rewarded, John,
On Canaan's tranquil shore.

For many years you've been, John,
Deprived of your sight,
And earth with all its beauty, John,
To you lath seemed as night.
But there upon the plains of light
You'll see forevermore,
And with the bright angelic throng,
The triune God adore.

There is a starry crown, John,
Awaiting for you now ;
Also that sacred name, John,
Will be upon your brow,
A golden harp for you to play
The anthem, as you sing
All praise and honor unto Thee,
My Saviour, God and King.

Heibio'r aeth chwe' deg o flwyddi, Sion,
Oddiar ein hymlyniad is nen ;
Ac ydych yn wir gynrychiolydd, Sion,
I'n Ceidwad fu farw ar bren ;
Eich galwad o hyd a gyflawnwch,
Er bod terfyn bywyd gerllaw ;
Ond buan y dcuwch i'ch breinio
Mewn nefoedd—y Ganaan a ddaw.

Dros flwyddi maith buoch yn wir, Sion,
Heb weled dim—ond yn wir ddall ;
Y ddaear, er hardded ei golwg, Sion,
I chwi mae megys yn fall ;
Ond eto ar ororau gwawl, Sion,
Mae'n ddiau y gwelwch chwi byth
Yn mhlith yr holl seintiau angylaidd,
O fewn tragwyddoldeb dyllyth.

Cewch feddu y goron serenog, Sion,
Un nefol, orfreiniol o fri ;
A'i henw yn wir gysegredig, Sion,
Mae hono yn aros i chwi ;
A thelyn aur hefyd i chwareu, Sion,
Yr anthem a bery dros byth,
Yn fawl i Dduw, Ceidwad pechadur,
Eich mangre oes-oesol a'ch nyth.

The Banks of Susquehanna.

A few more storms, and then, John,
 These joys they soon will be
 Bestowed upon you there, John,
 With honor, love and glee.
 Mankind cannot conceive, John,
 What joys will fill your soul ;
 But there you'll ever happy be,
 While countless ages roll.

THE CHRISTIAN'S MARCH TO THE CITY OF LIGHT.

Dedicated to JOHN D. LEWIS, Plymouth.

Fear not, poor careworn Christian,
 Though clouds obscure thy way,
 Thou art marching to a city
 Where dwells eternal day ;
 Thy sorrows soon will finish,
 Wait but a few days more,
 The veil will then be lifted
 For thee to see the shore.

Chorus—We are marching day and night,
 We are marching day and night,
 We are marching, we are marching,
 To a pure city of light.

'Nol goddef ychydig dymhestloedd, Sion,
Mwynhad o'r gobeithion a ddaw,
Yn daliad am gywir ffyddlondeb, Sion,
Anrhydedd a chariad didraw ;
Dynoliaeth ni fedra arwyddo, Sion,
Hyfrydwch yr enaid a'i fri,
Yn mhlith y seraffiaid angylauidd
Dedwyddwch sy'n aros i chwi.

TAITH Y CRISTION I DDINAS Y GOLEUNI.

Cyflwynedig i JOHN D. LEWIS, Plymouth.

Nac ofna, hynaws Gristion,
Drwy gymyl mae dy daith
I ddinas y goleuni,
Lle'r erys nefol iaith ;
Dy flin ofidiau dderfydd,
Ond aros maes o law,
Cei fyn'd mewn nefol gerbyd,
Yn iach i'r ochr draw.

Byrdeu—Ymdeithiwn ddydd a nos,
Ymdeithiwn ddydd a nos,
Ymdeithiwn, gorymdeithiwn,
Nes myn'd i'r ddinas dlos.

Look forward, weary pilgrim,
 Let not the tempter stay
 Thy Christian, sacred progress.
 Towards the land of day.
 For soon thy adversary
 Will never mar thy peace,
 If faithful to thy Saviour,
 Thou run the heavenly race.

Cho.—We are marching, &c.

When out upon life's billows
 Thy little bark doth roll,
 And howling tempests threaten
 To sink thy humble soul,
 Then call upon the Saviour,
 To bid the storm be still,
 And let thy faith be steadfast
 On His almighty will.

Cho.—We are marching, &c.

O, faint not, timid mortal,
 When waves of trouble meet,
 But kneel in sacred homage
 Beside thy Saviour's feet.
 He then will be thy pilot,
 And stand beside the oar,
 To guide thee to the harbor
 Of heaven's celestial shore.

Cho.—We are marching, &c.

Ha ! tremia yn mlaen bererin,
Na ad i stormydd erch
I rwystro'th daith fendigaid,
Hyd diroedd glan dy serch ;
Waith toc dy wrthwynebwr
Orchfygir gan dy ffydd ;
Cei weled dy Waredwr
O fewn trag'wyddol ddydd.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

Wrth rwyfo cefnfor bywyd
A'th fychan gwch mewn byd,
A'r tonau erch yn bygwth
Dy enaid ar bob pryd ,
Bryd hyn dyrchafa weddi
At orsedd lan y nef,
A Duw o'i wir dosturi
A wrendy ar dy lef.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

Nac ofna fod daearol,
Yn ymchwydd tonau fyrdd,
I lawr o flaen yr orsedd
Cyfeiria di dy ffyrdd ;
Efe o'i fawr drugaredd
A'th geidw o hyd i'r lan ;
Drwy'i nawdd cyrhaeddi'r hafan
Ddymunol yn y man.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

Behold poor, tired pilgrim,
 Thy Saviour's lovely form,
 His arms are now extended
 To help thee through the storm.
 O, hark! He now is calling,
 His gentle voice I hear,
 I need not be discouraged
 While such a friend is near.

Cho.—We are marching, &c.

Ah! welcome, deadly stranger,
 I will not fear thy sting,
 But in my latest moments,
 To my Redeemer cling.
 As Jesus is my pilot,
 I know that all is right;
 And want to be along with Him
 In yonder land of light.

Cho.—We are marching, &c.

Then farewell, care and sorrow.
 I'm going now to stay
 With my redeeming kinsman
 Who helped me on the way;
 There ever to be with Him,
 Upon the sunlit shore,
 And with the countless angels,
 His sacred name adore.

Cho.—We are marching, &c.

Canfydda, flin gredadyn,
Wir lun dy Geidwad mawr,
Ei freichiau sy'n ymledu
T'rh gynorthwyo 'nawr ;
Ha ! gwrando, mae yn galw,
Mor fwynded yw ei lais ;
Nid oes it' achos ofni
Un gormes, twyll na thrais.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

Ha ! deuwch ddeiliaid marw,
Nid ofnaf mwy eich trath :
Ond yn dy awr ddiweddaf
Mi heriaf bawb o'ch bath ;
Yr Iesu yw fy nharian,
Mi wn ei fod yn iawn ;
Hiraethaf am gael myned
I dir llawenydd llawn.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

Yn iach i chwi ofalon
A gofid, wyf yn myn'd
Drwy gymhorth ffydd a gobraith
I gwrdd a'm anwyl F'frynd ;
Hyd derfyn trag'wyddoldeb
Mi ganaf iddo ef,
Rhwyng dirif lan angylion,
O fewn terfynau'r nef.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c.

O, land of sacred music,
 Where pure bliss doth dwell,
 And legions of bright angels
 Their sweet Hosannahs swell.
 All glory to my Saviour,
 For standing by my side,
 The storms are over,
 I've waded through the tide.
 Cho.—We are marching, &c.

**LLEWELLYN'S GRAVE, THE LAST PRINCE
 OF WALES.**

Stranger, tread gently o'er that grave,
 Though barren and bleak it appear,
 There slumbers the hero of Gwalia,
 That e'er was a stranger to fear.
 'Tis the grave of the noble Llewellyn,
 The patriot loyal that bled
 Defending the freedom of Cambria,
 He blessings of liberty spread.

No monument stands to remember
 The place where Llewellyn did fall,
 But still in the hearts of his people,
 His name is the dearest of all.

Ha ! gerddol wlad santeiddiol,
Tir y puredig chwaeath ;
Tir engyl, tir ancirif,
A'u melus odlau maith ;
Yn llawn o dan gorfoledd,
Pur fwyniant nefol fri,
I seinio yn oes oesoedd
Rinweddau'r Un yn Dri.
Ymdeithiwn ddydd a nos, &c,

BEDD LLEWELYN, EIN LLYW OLAF.

Ymdeithydd arafa ! ar dir cysegredig
Y sengi, er nad oes un addurn i'r fan ;
Ond eto mae marmor golofnau i'w gweled
Lle nad oes gweddillion hefelydd i'w rhan ;
Gwel fangre lle gorwedd ein hanwyl Llewelyn,
Prif wron Brythoniaid, i'w harwain i'r gad,
Ond yma y gorwedd yn aberth bythgofus
Dros ryddid a defion hen Gymru ein gwlad.

Er nad oes cofadael i ddangos lle cwmpodd,
Bytholwyd ei enw ar edyn gwir ddawn ;
Adgofion o'i fawredd, a'i ddirfawr wrhydri,
Mal penaeth meis Gwalia yn gyson a gawn ;

O, sweet be thy slumber, Llewellyn,
 Thy deeds are as bright as of yore,
 And thy name still lives in the lyre
 That belongs to thy dear native shore.

Stranger, tread gently o'er that grave,
 For Llewellyn was chief of the brave,
 And fell for his country and people,
 When fighting, their freedom to save.
 So there let him sleep by the river,
 Where the warblers are chanting their lay,
 On the dear native soil of his fathers,
 Till the dawn of endless day.

MY NATIVE LAND.

To thee, my native Cambria,
 I muse my humble lay,
 Though far from thee I've wandered,
 And years have rolled away
 Since in thy groves I rambled,
 In boyhood's happy days,
 Not thinking that no sorrow
 Would ever cross my ways.

Chorus—My Cambrian home, the Eden of the free,
 Thy tranquil vales and sunny dales
 Are ever dear to me.

O! cysga yn dawel, prif arwr cyfiawnder,
Dyrchafwyd dy glodydd drwy'r oesoedd a fu,
Ac eto mal ffyddlon arwron y'th berchir,
A phenaeth gwladgarol, prif flaenor y llu.

Bydd dawel ymdeithydd, a gad iddo humo
Yn argel tawelwch,—anwylyd ein hawl ;
Pan gwympodd fe gwympodd yn deyrnben a noddwr,
Mor hawdd gan hil Gomer yw datgan ei fawl ;
Tyngedaf y Cymry i barchu ei feddrod,
Y man y gorwedda, ar lenydd yr Wy,
Hydd floedd yr archangel a'r udgorn diweddaf,
A phan yr adgyfyd, ni chyfyd ei fwy.

GWLAD FY NGHENEDIGAETH.

I ti, naturiol Gymru,
Cyflwynaf hyn o gan,
Er bod yn mhell o'th lenydd,
Nid oes i mi mor lan,
Er pan yn rhodio'th ddolydd,
O fewn i'r amser gynt,
Heb feddwl deuai gofid
I'm croesi ar fy hynt.
Byrdon—Fy Ngwalia hoff, lle rhyddid buost ti,
Dy feusydd gwyrdd, dy ddyl a'th ffyrdd,
Ynt anwyl genyf fi.

Thou land of bards and heroes,
 The music of thy lyre
 Doth kindle in my bosom,
 A patriotic fire,
 In memory of the valiant
 That bled there to save ;
 O, wake again sweet lyre,
 Beside Llewellyn's grave.

Cho.—My Cambrian home, &c.

The ode of brave Caradog
 Before the Roman king,
 Excites with admiration
 Historians ere to bring ;
 And tell in fame or story,
 If braver men could be,
 Than stained the rocks of Cambria
 With gore, from sea to sea.

Cho.—My Cambrian home, &c.

Awake, ye sons of Gomer,
 Your joyous lay expand,
 In memory of old Cambria,
 The Cymry's native land ;
 And tune again that lyre
 Which vibrated sweet of yore,
 And wave the flag of freedom
 Upon my native shore.

Cho.—My Cambrian home, &c.

Ti wlad y beirdd a'r doethion,
Dy gerddi grea swyn,
Nes enyn yn fy mynwes
Wladgarwch er dy fwyn ;
Wrth gofio gwaed gwroniaid
Dywalltwyd ynot ti,
I gadw'i braint a'i rhyddid
Aiff arswyd trwyof fi.
Fy Ngwalia hoff, &c.

Mae araeth hen Garadog,
Yn ngwyddfod Claudius fawr,
'N addurno cylch gwroldeb,
Nes synu dynion llawr.
Cyhoeddir clod y Cymry,
Mal dynol, gwrol gor,
Fu'n lliwio tiroedd Gwalia
A gwaed o for i for.
Fy Ngwalia hoff, &c.

Dihunwch, feibion Gwalia,
I blethu cywir gerdd,
Er cof am anwyl Gymru
Fu'n " gwisgo mantell werdd ;"
A tantiwch eto'r delyn,
Ein prif offeryn fad,
A chwifiwch faner rhyddid
Dros fryniau hoff eich gwlad.
Fy Ngwalia hoff, &c.



DO WHAT YOU CAN.

Some people they often poor Adam do blame,
 And say he has brought them to sin and to shame ;
